**Otosgopi:**

Bydd y meddyg neu'r awdiolegydd yn ceisio archwilio corn clust a thympan clust eich plentyn gan ddefnyddio tortsh arbennig o'r enw otosgop.

**Tympanometri:**

Yn ystod y prawf hwn, bydd pig rwber meddal yn cael ei roi i mewn i glust eich plentyn. Yna, bydd y peiriant yn chwythu ychydig o aer yn ysgafn i mewn i'r glust er mwyn mesur pa mor dda mae tympan clust eich plentyn yn symud. Mae hyn yn cymryd llai na munud i'w gwblhau a fydd eich plentyn ddim yn teimlo unrhyw boen o gwbl. Bydd y canlyniadau'n gallu dweud wrthym ni p'un a oes gormod o gŵyr ai peidio y tu ôl i dympanau'r glust ('glue ear' yn Saesneg), a dweud wrthym ni am ba mor dda mae clust ganol eich plentyn yn gweithio.



Rhif y daflen: 8126 Crëwyd ar 26/04/2020
Adolygwyd ar: 10/09/20. I'w adolygu ar 01/12/2025

## Rhagor o wybodaeth

Bydd y meddyg neu awdiolegydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda chi unrhyw bryd yn ystod yr apwyntiad. Os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth, gallwch chi gysylltu â'r bobl ganlynol:

Apwyntiadau ym Mharc Iechyd Keir Hardie neu yn Ysbyty Cwm Cynon:
Beth 01443 443443 Est 5307

Apwyntiadau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg neu yn Ysbyty Cwm Rhondda
Rhiannon Jones, 01443 443443 ext 75306

Gallwch chi hefyd gysylltu â Chymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar (NDCS). Mae llinell gymorth gyda'r gymdeithas ar gyfer rhieni a theuluoedd sydd am gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â phrofion clyw ac unrhyw fath o nam ar y clyw yn ystod plentyndod.

Llinell gymorth rad ac am ddim Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar: 0808 800 8880
Gwefan Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar: www.ndcs.org.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board




# Yr asesiad o glyw eich plentyn

OS BYDD ANGEN CYFIEITHYDD ARNOCH CHI AR GYFER EICH APWYNTIAD, RHOWCH WYBOD I NI DRWY DDEFNYDDIO'R MANYLION CYSWLLT AR Y DUDALEN GEFN

## Croeso i'r asesiad o glyw eich plentyn

Rydych chi wedi cael y daflen hon gan fod eich plentyn wedi cael ei atgyfeirio at yr Adran Awdioleg am asesiad o'i glyw.

### Pwy bydda i'n ei weld yn ystod yr apwyntiad?

Bydd pob plentyn yn cael ei archwilio gan awdiolegydd cymwysedig. Bydd meddyg paediatrig cymunedol hefyd yn bresennol mewn rhai apwyntiadau, yn dibynnu ar anghenion eich plentyn.

### Beth fydd yn digwydd yn ystod yr apwyntiad?

Ar ddechrau eich apwyntiad, bydd y meddyg neu awdiolegydd yn holi ambell gwestiwn i chi ynglŷn â chlyw ac iechyd cyffredinol eich plentyn, a bydd cyfle i chi ddweud wrtho am unrhyw bryderon sydd gyda chi.

Ar ôl hyn, bydd profion yn cael eu cynnal er mwyn asesu clyw eich plentyn a pha mor dda mae ei glust ganol yn gweithio.

Ar ôl cwblhau'r profion, bydd y canlyniadau'n cael eu hesbonio i chi a bydd cyfle i chi holi unrhyw gwestiynau. Yn ogystal â hynny, bydd cynllun triniaeth priodol yn cael ei drafod a'i drefnu.

### Y profion rydyn ni'n eu cynnal

Yn ystod yr apwyntiad, byddwn ni'n cynnal un prawf, neu gyfuniad o brofion, fydd yn briodol i oedran eich plentyn, er mwyn canfod ei lefelau clywed ac i ganfod a oes ganddo unrhyw anawsterau clywed. Gall hyn gynnwys mwy nag un ymweliad â'r clinig er mwyn cael set llawn o ganlyniadau a/neu er mwyn cadw golwg ar glyw eich plentyn.

### Awdiometreg Atgyfnerthu Gweledol

Mae Awdiometreg Atgyfnerthu Gweledol (VRA) yn cael ei defnyddio i fesur lefelau clywed plant tua 6 mis i 2 flwydd oed a hanner. Yn ystod VRA, bydd y plentyn naill ai'n eistedd mewn cadair arbennig neu ar glun ei riant tra bod rhywun yn eistedd o flaen y plentyn i gadw ei sylw gan ddefnyddio teganau syml. Bydd ail brofwr y tu hwnt i olwg y plentyn a bydd yn creu synau fydd yn amrywio o ran uchder drwy seinyddion neu glustffonau. Os bydd y plentyn yn troi tua chyfeiriad y sŵn, bydd y plentyn yn cael ei wobrwyo gyda thegan bach yn cael ei oleuo neu animeiddiad yn cael ei ddangos yng nghyfeiriad y siaradwr. Mae gwneud hyn dim ond os bydd y plentyn yn troi pan fydd sŵn yn cael ei greu yn helpu i atgyfnerthu ei ymateb ac yn ein galluogi ni i fesur y lefel dawelaf y bydd plentyn yn ymateb iddi ar bob traw ym mhob clust.

### Awdiometreg chwarae

Mae awdiometreg chwarae'n cael ei defnyddio ar gyfer plant tua 2-4 oed er mwyn asesu'r synau tawelaf, ar wahanol lefelau o draw, y mae plentyn yn gallu eu clywed. Bydd gofyn i'ch plentyn gyflawni tasg syml, fel gollwng cownteri plastig i mewn i fwced, er mwyn dangos ei fod wedi clywed sŵn. Gall y synau ddod drwy uchelseinydd neu drwy glustffonau.

### Awdiometreg tôn bur (PTA)

Mae PTA yn cael ei defnyddio i asesu clyw plant hŷn ac oedolion. Bydd synau'n cael eu creu drwy wahanol fathau o glustffonau a bydd gofyn i'ch plentyn wasgu botwm wrth ymateb i synau ar wahanol lefelau o draw ac o wahanol uchderau o ran sain. Bydd hyn yn ein galluogi ni i asesu'r synau tawelaf maen nhw'n gallu eu clywed.

